

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2021.

**Lesley Griffiths**  
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**  
**22 Mawrth 2021**

## **RHAN 1**

### **1. Disgrifiad**

Mae gan rai tenantiaethau amaethyddol hawliau olynu. Yn yr achosion hyn, o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 ('Deddf 1986'), gall perthynas agos i'r tenant ymadawedig neu'r tenant sy'n ymddeol wneud cais i'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol am gyfarwyddyd ynghylch a oes gan y perthynas hawl i olynu i denantiaeth. Un o'r profion wrth sefydlu hawl i olynu yw bodloni'r Tribiwnlys nad yw'r ymgeisydd eisoes yn meddiannu "uned fasnachol o dir amaethyddol" mewn mannau eraill. Pe bai hyn yn wir, ni fyddai'r perthynas agos yn gymwys i olynu'n awtomatig.

Mae Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2021 ('Gorchymyn 2021') yn nodi ffigurau ar gyfer incwm amaethyddol sy'n gysylltiedig ag amrywiol weithgareddau ffermio, ac fe'u defnyddir wrth benderfynu a yw'r tir dan sylw yn 'uned fasnachol o dir amaethyddol' ai peidio.

### **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

O dan Ddeddf 1986, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ragnodi drwy orchymyn unrhyw unedau cynhyrchu sy'n ymwneud â thir amaethyddol yr ystyrir ei fod yn briodol, am gyfnod o ddeuddeg mis a bennir yn y gorchymyn. Y Gorchymyn presennol sydd mewn grym yw Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2019 ('Gorchymyn 2019'), sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 12 Medi 2018 ac 11 Medi 2019. Bydd Gorchymyn 2021 yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 12 Medi 2019 a 11 Medi 2020.

Mae angen gorchymyn ôl-weithredol gan nad oedd ystadegau sylfaenol, a baratowyd gan Defra ac a ddefnyddir wrth gyfrifo gwerthoedd tir yng Nghymru, ar gael i Lywodraeth Cymru tan fis Medi 2019. Roedd angen dadansoddiad ychwanegol pellach i gyfrifo ffigurau Cymru. Mae unrhyw achosion sy'n symud ymlaen i'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol o 12 Medi 2019 wedi'u gohirio hyd nes y caiff Gorchymyn 2021 ei wneud.

### **3. Cefndir deddfwriaethol**

Rhoddir pwerau i Weinidogion Cymru wneud Gorchymyn 2021 gan baragraff 4 o Atodlen 6 i Ddeddf 1986.

Mae paragraff 4 o Atodlen 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn, gan ragnodi unrhyw unedau cynhyrchu sy'n ymwneud â thir amaethyddol yr ystyrir ei fod yn briodol am unrhyw gyfnod o 12 mis a bennir yn y gorchymyn. Rhoddwyd y pwerau hyn i'r Gweinidog yn wreiddiol (mae adran 96 o Ddeddf 1986 yn nodi mai'r Ysgrifennydd Gwladol yw hwn mewn perthynas â Chymru). Trosglwyddwyd y pwerau hyn wedyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo

Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672) ac Atodlen 1 iddo, ac maent bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Caiff Gorchymyn 2021 ei wneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae gorchymynion a wneir o dan baragraff 4 o Atodlen 6 i Ddeddf 1986 yn cael eu gwneud yn flynyddol ac yn nodi ffigurau ar werthoedd tir a baratowyd gan Lywodraeth Cymru. Defnyddir y ffigurau hyn gan y Tribiwnlys Tir Amaethyddol i asesu incwm blynyddol net tir cymwys wrth gyfrifo'r swm sydd i'w ystyried yn incwm blynyddol net o dir sy'n ymwneud ag olyniaeth tenantiaeth.

Mae gwneud Gorchymyn 2021 i Gymru yn galluogi cynnal asesiadau incwm blynyddol net at ddibenion achosion olynu tenantiaethau yng Nghymru. Paratoir asesiadau incwm blynyddol net, ar gais y Tribiwnlys Tir Amaethyddol.

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Ebrill 2021. Heb Orchymyn 2021, ni fydd gan y Tribiwnlys Tir Amaethyddol y ffigurau i benderfynu ar achosion o'r fath yng Nghymru.

#### **5. Ymgynghori**

Nid oes ymgynghoriad wedi'i gynnal ar Orchymyn 2021. Ni ystyriwyd bod angen ymgynghori ar y Gorchymyn hwn gan fod yr offeryn yn cael ei wneud yn flynyddol, yn dechnegol ei natur ac nid yw'n ddadleuol.

#### **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)**

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn. Mae newidiadau a wneir gan y Gorchymyn yn arferol ac maent yn ddiwygiadau technegol i'r system bresennol (proses flynyddol sy'n diweddarau'r ffigurau incwm blynyddol net yn y blynyddoedd blaenorol) ac nid ydynt yn cael unrhyw effaith fawr ar bolisi. Felly, nid ystyriwyd bod angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol.

Yn ogystal, nid yw'r ddeddfwriaeth yn cael unrhyw effaith ar y dyletswyddau statudol (adrannau 77-79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) nac ar y partneriaid statudol (adrannau 72-75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).